Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Mark a Jeremy

**Ymchwiliad "Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru"**

Yn dilyn fy llythyrau ar 11 a 19 Mehefin 2020 ynghylch ein hymchwiliad parhaus, sef **Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**, mae'r Pwyllgor bellach wedi cael cyfle i drafod a chytuno ar y dull o gasglu rhagor o dystiolaeth yn nhymor yr hydref.

Hoffem eich gwahodd chi'ch dau i ddod i'n cyfarfod pwyllgor fore Llun 12 Hydref i drafod y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder a sefydlwyd yn ddiweddar wrth ymateb i argymhellion **adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**.

Bydd y sesiwn hefyd yn gyfle i ni drafod y materion penodol a godwyd gyda ni yn yr ymatebion ysgrifenedig a gawsom fel rhan o'n hymgynghoriad cyhoeddus.

Bydd y sesiwn dystiolaeth yn ystyried y model cyfarfod rhithwir presennol ar gyfer Pwyllgorau'r Senedd. Mae'n debygol y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal gan ddefnyddio Zoom, ond bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn nes at ddyddiad y cyfarfod.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a ydych ar gael ar gyfer y sesiwn hon cyn gynted ag y gallwch.

Hefyd, yn ystod sesiwn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 3 Gorffennaf 2020, tynnais sylw at adroddiadau blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. A allech gadarnhau mai bwriad Llywodraeth Cymru yw trefnu dadl yn yr hydref ar ail adroddiad blynyddol y Llywydd, a osodwyd gerbron y Senedd ar 29 Mehefin?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.